



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Amberleigh Care – Golfa Hall

Y TRALLWNG

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/11/2019

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cartref plant wedi'i leoli yn sir Powys yw Amberleigh Care – Golfa Hall. Amberleigh Care Ltd. yw darparwr y gwasanaeth, ac mae wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu asesiadau therapiwtig arbenigol a gofal ar gyfer hyd at 12 o bobl ifanc sydd wedi dangos ymddygiadau rhywiolledig amhriodol neu niweidiol. Mae'r rheolwr penodedig wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, a Kevin Gallagher yw'r unigolyn cyfrifol.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae therapi, addysg, ac amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl ifanc. Maent yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu trin â pharch, yn cael eu hannog i fod yn annibynnol, yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio eu gofal, ac mae'r staff yn gwrandao ar eu sylwadau a'u barn. Mae cynlluniau personol, asesiadau risg a dogfennau eraill sy'n berthnasol i iechyd emosiynol a llesiant corfforol y bobl ifanc yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt. Caiff y bobl ifanc eu hannog i gymryd rhan mewn cyfarfodydd grŵp cymunedol ac adolygiadau unigol, a chaiff eu dewisiadau personol o ran eu diddordebau, hobiau a gweithgareddau hamdden eu cofnodi. Maent yn gallu manteisio ar wahanol wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a chânt eu hannog i fyw bywyd iach. Mae'r amgylchedd yn agored, a chaiff ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r bobl ifanc yn cymryd rhan yn y gwaith o bersonoli eu hystafelloedd. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau'n amserol, ac mae gwaith adnewyddu ac ailaddurno wedi'i gwblhau. Mae cynlluniau ar waith i wneud gwelliannau pellach. Mae staff newydd wedi'u recriwtio ac mae gwiriadau recriwtio diogel yn mynd rhagddynt. Mae'r staff yn cael cyfleoedd hyfforddi rheolaidd a sesiynau goruchwyllo, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae prosesau monitro ansawdd cadarn ar waith gan y cartref, ac mae'n rhoi gwybod i'r staff a'r bobl ifanc am newidiadau. Mae tystiolaeth o gyfathrebu rheolaidd a chadarnhaol rhwng yr unigolyn cyfrifol, yr uwch-reolwyr, y tîm o staff a'r bobl ifanc sy'n hybu amgylchedd cynorthwyol, therapiwtig a chymunedol.

2. Gwelliannau

- Mae'r gwasanaeth wedi datblygu tudalen cyfrwng cymdeithasol sy'n ei alluogi i gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc a oedd wedi byw yn y cartref yn y gorffennol. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth a'r bobl ifanc i weld cynnydd ei gilydd, gyda'r bwriad o roi tawelwch meddwl ychwanegol iddynt eu bod yn parhau'n rhan o gymuned Amberleigh.
- Mae cynllun ailaddurno ac adnewyddu parhaus ar waith. Mae'r gegin wedi'i hadnewyddu'n sylweddol, gan greu mwy o le i'r bobl ifanc gymdeithasu a pharatoi prydau bwyd gyda'i gilydd.
- Mae dogfennau ffurfiol megis cynlluniau personol, asesiadau risg, adroddiadau misol a dogfennau arolygu wedi'u symleiddio, a chânt eu cysylltu â model gofal therapiwtig 'Bywydau Da'.
- Mae'r gwasanaeth wedi cyflogi therapydd llawn amser i sicrhau bod y bobl ifanc yn cael cymorth cyson.
- Mae'r gwasanaeth wrthi'n recriwtio staff newydd.

3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth:

Gwnaed yr argymhellion canlynol er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach:

- Darpariaeth Gymraeg.
- Nodiadau goruchwyllo'r staff.

1. Llesiant

Ein canfyddiadau

Mae gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael i'r bobl ifanc, a chânt eu cefnogi o gael rheolaeth dros eu dewisiadau o ddydd i ddydd. Roedd canllaw i bobl ifanc a datganiad o ddi-ben y cartref yn cynnwys gwybodaeth am y math o wasanaeth yr oedd yn ei ddarparu ar gyfer pobl ifanc. Dywedodd pob person ifanc y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn "happy" yn byw yn y cartref a gyda'i ystafell. Roedd y bobl ifanc yn canmol yr ymyriadau therapiwtig unigol a grŵp gan ddweud, "*it has helped me*", "*it's great*" ac "*it's changing me*". Roeddent hefyd yn canmol y cymorth a'r arweiniad roeddent yn eu cael gan dîm o staff amlddisgyblaethol y cartref, gan eu disgrifio fel, "*brilliant*", "*supportive*", "*always there for you*", a chan ddweud, "*we're like family here*". Roedd y bobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymunedol ddwywaith yr wythnos, adolygiadau statudol a sesiynau misol â'u gweithiwr allweddol, a gwnaethant ddweud bod y staff yn parchu eu sylwadau a'u barn ac yn gwrandao arnynt. Mae'r bobl ifanc yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, ac mae'r staff yn gwrandao arnynt. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, a chaiff eu hamgylchiadau unigol eu hystyried.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y bobl ifanc yn gallu manteisio ar amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn y gwasanaeth ac yn y gymuned. Roedd cofnodion gofal unigol yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas ag anghenion corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl ifanc. Roedd cynlluniau therapiwtig, cymorth ymddygiadol ac addysgol yn rhoi strwythur ac amcanion cadarnhaol y mae modd eu cyflawni i'r bobl ifanc, gan ganolbwyntio ar wella eu hunan-barch, hyder ac annibyniaeth, a mynd i'r afael â phrofiadau bywyd blaenorol a oedd yn heriol neu'n negyddol. Roedd cynlluniau personol ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n amserol, ac roedd y bobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses. Roeddent yn gallu manteisio ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned, a chawsant eu cefnogi i fynychu apwyntiadau gyda'r staff. Roeddent hefyd yn cael eu hannog i fyw bywydau iach ac yn bwyta deiet cytbwys ac iach. Caiff y bobl ifanc eu hannog i fod yn iach a chânt y gofal a'r cymorth cywir sy'n hybu eu hanghenion llesiant, eu hanghenion corfforol a'u hanghenion iechyd meddwl.

Mae gan y cartref bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod y bobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed. Roedd gwahanol weithdrefnau amddiffyn plant ar waith gan y

cartref, a gwelsom y polisïau chwythu'r chwiban, cwynion a diogelu. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau ar staff newydd, a oedd wedyn yn cwblhau proses sefydlu fanwl. Roedd aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac roedd gwahanol bolisiau a gweithdrefnau'r cartref ar gael yn hawdd iddynt. Dywedodd y staff eu bod yn deall y broses chwythu'r chwiban ac yn gwybod gyda phwy y dylent gysylltu i godi pryderon. Roedd y darparwr yn rhoi gwybod i AGC am faterion yn ymwneud â llesiant a diogelu yn amserol, a dywedodd y bobl ifanc wrthym eu bod yn teimlo'n "safe". Dywedodd y bobl ifanc wrthym hefyd eu bod yn gwybod sut i godi pryder, a bod gwasanaeth eiriolaeth annibynnol ar gael iddynt ar unrhyw adeg. Caiff y bobl ifanc eu hannog i rannu eu barn, i ddeall sut i wneud cwyn a chodi pryderon, a chânt eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Caiff darpariaeth addysgol ei hyrwyddo ac mae'r bobl ifanc yn gallu manteisio ar weithgareddau yn y gymuned. Roedd y bobl ifanc yn gallu manteisio ar addysg, gan fynychu ysgol y cartref ar y safle, sy'n cael ei harolygu gan Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru). Roedd anghenion dysgu'r bobl ifanc yn cael eu hystyried mewn perthynas â'u galluoedd, ac roedd amserlenni addysgol wedi'u personoli a chynlluniau sy'n canolbwyntio ar y disgybl wedi cael eu datblygu. Roedd y staff gofal yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd addysgol y bobl ifanc a rheoli ymddygiad bob dydd, er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio. Roedd y bobl ifanc yn gallu manteisio ar amrywiaeth o sgiliau byw bob dydd a gweithgareddau hamdden o'u dewis, a hynny ar y safle ac yn y gymuned. Roedd risgiau'r gweithgareddau'n cael eu hasesu ac roedd y gweithgareddau'n cael eu monitro gan y staff. Roedd y bobl ifanc yn gallu dewis p'un a fyddent yn fynychu neu beidio. Mae'r bobl ifanc yn cael cyfleoedd i ddysgu a datblygu eu hannibyniaeth, a gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt.

Mae'r bobl ifanc yn byw mewn llety addas sy'n ddiogel ac sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Roedd y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd ystafelloedd y bobl ifanc yn daclus, wedi'u dodrefnu'n addas, yn cynnwys eu heiddo personol ac wedi'u personoli fel yr hoffent. Roedd cyfleusterau megis y lolfeydd, y gegin, a'r ystafelloedd bwyta/hamdden mawr yn rhoi amgylchedd cyfforddus i'r bobl ifanc a oedd yn hybu cymdeithasu, cyfranogaeth ac annibyniaeth. Roedd newidiadau cadarnhaol yn cael eu gwneud i'r amgylchedd yn ystod ein hymweliad, ac roedd tîm cynnal a chadw ar gael er mwyn sicrhau

bod atgyweiriadau a gwaith addurno a nodwyd yn cael eu cwblhau'n amserol. Roedd gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol hefyd yn cael eu cwblhau yn unol ag amserlenni. Mae'r bobl ifanc yn byw mewn cartref sy'n eu helpu i gyflawni eu llesiant yn y ffordd orau bosibl.

2. Gofal a Chymorth

Ein canfyddiadau

Mae cynlluniau personol ac asesiadau iechyd a gofal cymdeithasol y bobl ifanc yn cofnodi eu hanghenion gofal a chymorth a'u dewisiadau personol. Gwelsom ffeiliau gofal a chofnodion dyddiol tri pherson ifanc. Roedd y wybodaeth yn y ffeiliau gofal yn cynnwys asesiadau'r gwasanaeth comisiynu mewn perthynas â'u hiechyd emosiynol a'u hiechyd meddwl, a'u hanghenion o ran llesiant, addysg a gofal cymdeithasol. Cafwyd y wybodaeth drwy brosesau atgyfeirio a derbyn y gwasanaeth, a chafodd ei defnyddio i lywio cynlluniau personol y bobl ifanc, eu hasesiadau risg a'u cynlluniau addysgol a therapiwtig. Roedd y cynlluniau yn rhoi arweiniad manwl i'r staff ynghylch sut i reoli a chefnogi anghenion gofal a chymorth dyddiol y bobl ifanc. Dywedodd y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn gwybod am eu cynlluniau personol a'u bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio eu gofal. Roeddent hefyd wedi helpu i ddatblygu fersiwn o'r cynllun personol a oedd yn addas ar gyfer plant gan eu bod yn lliwgar, wedi'u symleiddio, ac yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'u hamcanion ar gyfer y dyfodol, annibyniaeth a chanlyniadau cadarnhaol. Roedd cynlluniau personol ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n amserol, ac roedd asesiad y darparwr yn cael ei gwblhau o fewn wythnos i berson ifanc gyrraedd. Roedd newidiadau yn ymddygiadau'r bobl ifanc yn cael eu monitro ac roedd cofnodion digwyddiadau manwl yn cofnodi sbardunau, technegau dad-ddwysáu a ddefnyddiwyd, ymddygiadau ac ymatebion y staff. Roedd cosbau hefyd yn cael eu cofnodi ac yn cael eu trafod a'u cytuno â'r bobl ifanc. Dywedodd pob person ifanc y gwnaethom siarad ag ef fod y cosbau'n deg, gan gadarnhau ei fod yn cael ei annog i'w trafod â'r staff. Dywedodd y bobl ifanc fod system wobrwyo gadarnhaol yn cael ei defnyddio i hybu ymddygiad cadarnhaol. Dywedodd eu bod yn ystyried y system wobrwyo'n "*fair*", a bod y staff yn "*pretty good*" o ran cydnabod pan fydd "*things are good*". Mae gan y darparwr gwasanaeth gynlluniau cywir a chyfredol o ran sut y darperir gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod anghenion y bobl ifanc yn cael eu diwallu.

Caiff lefelau cyfranogi ac ymgysylltu'r bobl ifanc eu cofnodi a chaiff eu sylwadau personol eu nodi. Dywedodd y bobl ifanc wrthym fod eu sylwadau a'u barn yn cael eu parchu, a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu gofal. Gwnaethant hefyd ddweud bod eu sylwadau a'u barn yn cael eu nodi o ran addasrwydd

unigolion newydd yn y cartref yn ogystal â darpar staff newydd. Roedd gweithiwr allweddol penodedig gan y bobl ifanc, ac roeddent yn cymryd rhan mewn sesiynau ffurfiol gyda'u gweithiwr allweddol bob mis, a chyfarfodydd cymunedol ddwywaith yr wythnos, a oedd yn ganolog i arferion cymunedol therapiwtig y cartref. Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod cymunedol a chymryd rhan ynddo, a fynychwyd gan ddeg unigolyn ifanc, y rheolwr, staff therapi ac addysg, ac aelodau o dîm adolygu cymheiriaid annibynnol a oedd yn ymweld â'r cartref. Cynhaliwyd y cyfarfod mewn awyrgylch hamddenol, ac roedd y bobl ifanc yn cael eu hannog a'u grymuso i gymryd eu tro wrth rannu eu sylwadau a'u barn am wahanol agweddau ar eu gofal, eu cymorth a darpariaeth y gwasanaeth. Roedd y staff yn gwranddo ar y bobl ifanc, roeddent yn cael eu parchu, ac yn gallu rhannu eu teimladau a'u barn â'r grŵp. Roedd y staff yn ymddangos yn gyfforddus, yn gyfeillgar ac yn onest wrth siarad â'r bobl ifanc, gan eu hannog i ystyried datrysiadau cadarnhaol i'r materion a godwyd. Roedd sylwadau'r bobl ifanc a'r camau i'w cymryd yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod, a oedd yn cadarnhau eu bod yn gweithredu ar y camau a nodwyd. Yn ystod y cyfarfod, gwelsom y bobl ifanc yn rhannu jôcs, yn siarad â'i gilydd yn blwmp ac yn blaen, ac yn mabwysiadu dull aeddfed wrth drafod pynciau'r agenda. Mae gan y darparwr gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau yr ymgynghorir â'r bobl ifanc, bod y staff yn gwranddo arnynt, a bod eu dymuniadau, eu dyheadau a'u canlyniadau personol yn cael eu nodi.

Mae prosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc yn gallu manteisio ar wasanaethau i hybu eu hiechyd corfforol a'u llesiant emosiynol. Roedd y wybodaeth yn ffeiliau'r bobl ifanc yn dangos eu bod wedi'u cofrestru â gwasanaethau iechyd lleol. Roedd y cofnodion yn dangos eu bod wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau megis meddyg teulu, deintydd, optegydd a'u bod yn manteisio ar archwiliad meddygol bob blwyddyn. Roedd llesiant emosiynol y bobl ifanc yn cael ei gefnogi bob dydd, ac roedd ymyriadau therapiwtig yn cael eu darparu mewn amgylchedd byw cymunedol mewn grŵp, yn seiliedig ar fodel gofal 'Bywydau Da'. Dywedodd y bobl ifanc wrthym eu bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio eu gofal therapiwtig, gan ddisgrifio'r therapi fel *“great”*, *“helpful”* a *“really, really good”*. Roeddent hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol a hamdden o'u dewis, ar y safle ac yn y gymuned, ac roedd ffordd iach o fyw yn cael ei hybu a'i chefnogi. Roedd y bobl ifanc yn cymryd eu tro i baratoi a choginio prydau bwyd i'w gilydd, ac roedd y bwydlenni'n cynnwys opsiynau prydau bwyd iach. Caiff y bobl ifanc eu cefnogi i fanteisio ar ofal iechyd, a chânt therapi ar y safle i gynnal eu hiechyd, datblygiad a llesiant yn barhaus.

Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau diogelu perthnasol ar waith. Gwnaethom edrych ar bolisi a gweithdrefn diogelu'r gwasanaeth a gwelsom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth Cymru. Roedd y tîm rheoli'n gweithredu mewn modd rhagweithiol, a chawsom ohebiaeth cyn cwblhau'r adroddiad hwn yn cadarnhau bod y polisi wedi cael ei ddiweddarau. Dywedodd y bobl ifanc wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y cartref, a dywedodd y staff eu bod yn cael hyfforddiant diogelu yn rheolaidd ac yn deall y broses o roi gwybod am faterion diogelu. Roedd cofnodion ysgrifenedig ac electronig yn dangos bod y gwasanaeth yn cyflwyno atgyfeiriadau diogelu i awdurdodau lleol, ac yn rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelu yn amserol. Mae gan y darparwr gwasanaeth ddulliau ar waith er mwyn diogelu'r bobl ifanc sy'n agored i niwed y mae'n darparu gofal a chymorth ar eu cyfer.

Caiff hunaniaeth a diwylliannau unigol y bobl ifanc eu parchu. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw un o'r bobl ifanc yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf, a chawsom wybod bod un aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl. Gwnaeth y tîm rheoli gydnabod na allai ddarparu gwasanaeth Cymraeg cyson ar hyn o bryd pe bai rhywun yn gofyn amdano. Roeddem o'r farn bod hyn yn faes i'w wella a gwnaethom drafod manteision cyfieithu dogfennau, cael arwyddion dwyieithog a chanfod sesiynau hyfforddiant iaith Gymraeg. Gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r gwasanaeth edrych ar y canllawiau strategol cyfredol mewn perthynas â darparu 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'r bobl ifanc yn cael cyfleoedd i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith, ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn darparu 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer gwasanaeth Cymraeg.

3. Yr Amgylchedd

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl ifanc yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion, yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl ac yn sicrhau ymdeimlad o lesiant. Tŷ gwledig mawr yw'r cartref, wedi'i leoli mewn wyth erw o dir mewn ardal lled-wledig. Mae'n agos at dref sydd â chyfleusterau hamdden lleol a chysylltiadau trafnidiaeth i drefi mwy o faint sydd â chyfleusterau siopa. Gwnaethom edrych ar ardaloedd o'r cartref, yr ysgol, ardaloedd swyddfa ar wahân a'r ardal awyr agored. Yn y prif dŷ, gwnaethom edrych ar ystafelloedd gwely pedwar person ifanc, dwy lolfa, ardal fwyta/gweithgareddau, y brif gegin, yr ystafell golchi dillad a'r brif swyddfa. Ar y cyfan, roedd pob ardal yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, a gwelsom waith cynnal a chadw'n cael ei wneud mewn gwahanol ardaloedd o'r cartref, gan gynnwys gwaith ar osodiadau trydanol a gwaith gosod carpedi. Gwelsom hefyd fod nifer o'r ystafelloedd wedi cael eu hail-baentio fel rhan o raglen ail-addurno bresennol y cartref. Roedd ystafelloedd gwely'r bobl ifanc yn cynnwys cyfleusterau en-suite ac roeddent wedi'u dodrefnu'n addas. Roedd yr ystafelloedd yn amrywio o ran maint ac addurn, a gwelsom fod y bobl ifanc wedi'u personoli fel yr hoffent gyda phosteri, ffotograffau ac eitemau o werth personol iddynt. Dywedodd pob person ifanc wrthym eu bod yn hapus â maint eu hystafelloedd a'r ffordd yr oeddent wedi'u haddurno. Dywedasant hefyd eu bod yn hapus â threfniadau diogelu eu hystafelloedd, lle roedd larymau ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a gawsant eu rhoi ar waith pan oedd angen. Dywedasant wrthym fod hyn yn gwneud iddynt deimlo'n "safe", a'u bod yn deall bod y trefniadau hyn yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u symudiadau ac yn gallu ymateb pan oedd angen. Roedd ardaloedd cymunedol y cartref yn lân, yn agored, wedi'u dodrefnu'n gyfforddus ac yn teimlo'n gartrefol. Roeddent yn cynnwys digon o le i eistedd, gan sicrhau bod y bobl ifanc yn gallu cymdeithasu, cynnal cyfarfodydd cymunedol a chael amser tawel. Roedd yr ardal fwyta a'r ardal weithgareddau gyfagos yn cynnwys digon o le, lle i eistedd ac adnoddau gweithgareddau megis bwrdd pŵl/tennis bwrdd, Lego a chyfrifiaduron. Roedd yr ardaloedd yn galluogi'r bobl ifanc a'r staff i fwyta gyda'i gilydd, a darparu amgylchedd cymdeithasol, addysgol a chymunedol. Roedd yr ardal golchi dillad yn lân, ac roedd y gwaith adnewyddu diweddar ar y gegin wedi creu ardal fawr i'r bobl ifanc baratoi a choginio prydau bwyd gyda'r staff ar gyfer pawb yn y cartref, gan ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol a'u sgiliau cymdeithasol hefyd. Roedd yr adeilad addysg ac adeilad y swyddfa'n lân, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac yn cynnig digon o le i'r bobl ifanc a'r staff wneud y tasgau ar eu

hamserlenni beunyddiol. Roedd y tir y tu allan yn fawr, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac yn darparu digon o le i barcio ceir. Roedd y tir yn cynnig ardaloedd i'r bobl ifanc eu defnyddio at ddibenion addysg, hamdden a therapi. Roedd yn cynnwys cae pob tywydd a fyddai'n cael ei ddefnyddio i chwarae pêl-droed gan amlaf, sawl ardal patio/barbeciw gyda lle i eistedd, a chwt ieir lle roedd y bobl ifanc yn dysgu ac yn datblygu sgiliau gofalu am anifeiliaid. Caiff gofal a chymorth y bobl ifanc eu darparu mewn amgylchedd therapiwtig a chymunedol, gyda chyfleusterau a chyfarpar sy'n helpu i gyflawni eu canlyniadau personol.

Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle eu cwblhau'n rheolaidd. Wrth gyrraedd y cartref, gwelsom nad oedd yn hollol ddiogel rhag mynediad diawdurdod, gan ein bod yn gallu mynd i mewn i'r cartref heb gael ein cwestiynu. Gwnaethom drafod hyn gyda'r rheolwr a esboniodd pam roedd hyn wedi digwydd, a gwnaethom gadarnhau'r esboniad hwn yn ystod ein hymweliad. Trafodwyd y mater â'r unigolyn cyfrifol, a wnaeth newidiadau cadarnhaol cyn cwblhau'r adroddiad hwn er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw achosion eraill o fynediad diawdurdod yn digwydd eto. Gwnaeth y staff gadarnhau pwy oeddem, a gwelsom fod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol mewn perthynas â'r bobl ifanc a'r staff yn cael ei storio'n ddiogel. Gwelsom nifer o gofnodion iechyd a diogelwch mewn perthynas â risgiau amgylcheddol posib a rhai a nodwyd, gan ddangos y rhoddir gwybod am risgiau o'r fath, a'u bod yn cael eu hadolygu a'u trin. Roedd cofnodion penodol mewn perthynas â diogelwch tân, profi cyfarpar trydanol a dyfeisiau trydanol, arferion hylendid bwyd a gwiriadau cerbydau yn dangos eu bod hefyd yn cael eu cynnal o fewn yr amserlenni a nodwyd ar eu cyfer. Mae'r bobl ifanc yn byw mewn amgylchedd diogel am fod y darparwr gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch.

4. Arwain a Rheoli

Ein canfyddiadau

Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth wedi cael ei ddiweddarau ac mae ymweliadau monitro sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal. Rhoddwyd copi o'r datganiad o ddiben a ddiweddarwyd yn ddiweddar i AGC, a gwelsom ei fod yn rhoi adlewyrchiad cywir o ddarpariaeth y gwasanaeth. Roedd y llyfr cofnodi ymwelwyr yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac roedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad. Roedd y staff a'r bobl ifanc yn cadarnhau eu bod yn siarad â'r unigolyn cyfrifol, gan ei ddisgrifio fel "*very nice*" a "*friendly*", a dywedasant eu bod yn teimlo'n "*listened to*". Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol yn llunio cylchlythyr staff bob mis a oedd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r staff am ddatblygiadau a gwelliannau gweithredol, a hefyd yn cynnig adborth cadarnhaol ar arferion. Roedd adroddiad manwl ar 'Gynllun Datblygu a Busnes y Gwasanaeth' hefyd yn cael ei lunio a oedd yn trafod gofal, addysg a darpariaeth therapiwtig y bobl ifanc yn ogystal â phynciau eraill. Roedd adroddiadau ar ansawdd y gofal yn cael eu cwblhau yn amserol ac roedd ymweliadau dirybudd yn cael eu cynnal bob mis gan ymwelydd annibynnol. Cadarnhaodd y staff hefyd fod aelod o'r tîm uwch-reolwyr yn ymweld â'r cartref ddwywaith yr wythnos, a gwelsom fod gwahanol archwiliadau monitro'r gwasanaeth yn cael eu cwblhau. Roedd y tîm rheoli'n siarad yn gadarnhaol am y cysylltiad a'r cyfathrebu a fu rhyngddynt â'r tîm uwch-reolwyr. Gwelsom hyn yn ystod ein hymweliad am i ni weld y bobl ifanc, y staff a'r tîm rheoli'n trin ei gilydd â pharch ac mewn modd cyfeillgar. Gall y bobl ifanc fod yn hyderus bod gan y gwasanaeth drefniadau sicrhau ansawdd cadarn ar waith er mwyn gwneud yn siŵr y caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n effeithiol.

Mae gan y gwasanaeth brosesau a gweithdrefnau ar waith i dderbyn cwynion, ac ymateb iddynt. Dywedodd pob aelod o'r staff a phob person ifanc y gwnaethom siarad ag ef y byddai'n hapus i fynegi ei bryderon ac yn deall sut i wneud hyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o bolisi chwythu'r chwiban a pholisi cwynion y gwasanaeth a'u bod yn gallu cael gafael arnynt ar unrhyw adeg. Dywedasant hefyd nad oedd ganddynt unrhyw bryderon am y gwasanaeth, gan ddweud ei fod yn "*well run*", a chan ddisgrifio'r tîm rheoli fel "*approachable*" a "*fair*". Dywedodd y bobl ifanc wrthym fod ganddynt sawl ffordd o fynegi eu pryderon, eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt, a dywedasant fod eu

sylwadau a'u barn yn cael eu parchu a'u cymryd o ddifrif. Gwelsom enghreifftiau amrywiol o hyn drwy gydol yr arolygiad, am i'r staff a'r bobl ifanc gael cyfleoedd i drafod pryderon yn ffurfiol ac yn anffurfiol â'i gilydd ac â'r tîm rheoli. Dywedodd y bobl ifanc wrthym hefyd eu bod yn gallu manteisio ar eiriolwr annibynnol a hefyd yn gallu cysylltu â chynrychiolwyr o'u hawdurdod lleol. Mae'r bobl ifanc a'r staff yn deall sut i wneud cwyn, cânt eu hannog i leisio eu barn ac mae polisi cwynion a pholisi chwythu'r chwiban y gwasanaeth ar gael iddynt.

Mae'r gwasanaeth wrthi'n recriwtio, caiff staff newydd eu fetio'n drylwyr ac maent yn cwblhau cyfnod sefydlu ffurfiol. Gwnaethom edrych ar broses recriwtio'r gwasanaeth, y rhaglen sefydlu a lefelau staffio. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol a'r tîm uwch-reolwyr wrthym eu bod wedi recriwtio aelod newydd o'r staff yn ddiweddar a fyddai'n dechrau gweithio yn y dyfodol agos. Gwelsom aelod newydd o'r staff yn ymweld â'r gwasanaeth a dywedodd y bobl ifanc a'r staff wrthym eu bod wedi cael y newyddion diweddaraf am y sefyllfa. Dywedodd y bobl ifanc wrthym hefyd eu bod wedi cymryd rhan yn y broses gyfweld, a dywedodd y staff a'r bobl ifanc fod eu barn am addasrwydd yr aelod newydd o'r staff wedi cael ei hystyried yn ystod y broses recriwtio. Gwnaeth y tîm rheoli gydnabod bod y tîm staff wedi gweithio sifftiau ychwanegol yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod digon o staff ar bob sifft. Roedd rotâu'r staff a welsom yn dangos bod y gwasanaeth yn gallu darparu staff yn unol ag anghenion gofal y bobl ifanc a nodwyd. Roedd ffeiliau'r staff a welsom yn dangos bod gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau, a bod cofnodion lefelau uwch o fetio diogel yn gyfredol. Roedd aelodau newydd o'r staff hefyd yn cwblhau proses sefydlu ffurfiol fel sy'n ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn cael eu cefnogi i gwblhau cymhwyster gofal a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau cyn cyflogi, yn cyflogi niferoedd priodol o staff addas, ac yn cynnig cyfleoedd i'r staff ennill cymwysterau gofal.

Caiff staff eu goruchwyllo'r rheolaidd a chânt gyfleoedd hyfforddi. Gwnaethom edrych ar gofnodion recriwtio a hyfforddi'r staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael cymorth "*excellent*" a "*brilliant*" gan y tîm rheoli, ac roedd eu cofnodion goruchwyllo'n dangos eu bod yn cael eu goruchwyllo'n ffurfiol bob mis a'u harfarnu bob blwyddyn. Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â sicrhau bod y staff yn cael cadarnhad ysgrifenedig yn ei nodiadau goruchwyllo o unrhyw gamau a gymerwyd mewn perthynas â materion sy'n codi, a sut y byddent yn cael eu trin. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff y dangos eu bod yn cwblhau sesiynau hyfforddiant rheolaidd sy'n berthnasol i'w rôl. Roedd y staff yn canmol

ansawdd ac amllder yr hyfforddiant, a dywedasant wrthym ei fod yn eu galluogi i ddeall anghenion gofal a chymorth y bobl ifanc. Dywedasant hefyd fod sesiynau hyfforddiant penodol yn cael eu trefnu er mwyn canolbwyntio ar angen penodol pan oedd ei angen. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth rheolaidd i'r staff, ac mae'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd i'w helpu i alluogi'r bobl ifanc i gyflawni eu canlyniadau personol.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Nid yw hyn yn berthnasol yn yr achos hwn am na nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio ar ôl yr arolygiad blaenorol.

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dyma'r meysydd i'w gwella a argymhellir er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol pellach i'r bobl ifanc sy'n byw yn y cartref:

- Dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol dilynol '*Mwy na Geiriau*' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn helpu i ystyried ffyrdd o wella'r cartref mewn perthynas â chynnig rhagweithiol a darparu gwasanaeth yn Gymraeg.
- Dylai'r wybodaeth yn nodiadau goruchwyllo'r staff gofnodi yn gyson yr ymatebion a wnaed i faterion a gododd yn y sesiwn goruchwyllo. Bydd hyn yn sicrhau bod y staff yn cael cofnod ffurfiol o'r camu a gymerwyd mewn ymateb i faterion sy'n codi.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaethom ni, AGC, gynnal cyfanswm o ddau ymweliad â'r gwasanaeth gyda dau arolygydd fel rhan o broses arolygu flynyddol llawn. Cynhaliwyd yr ymweliad dirybudd cyntaf ar 19 Tachwedd 2019 rhwng 09:10am a 17:15pm. Cynhaliwyd yr ail ymweliad dirybudd ar 20 Tachwedd 2019 rhwng 09:00am a 17:20pm.

Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'r arolygiad hwn:

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad â saith person ifanc sy'n byw yn y cartref, yr unigolyn cyfrifol, y rheolwr, y dirprwy reolwr, y cyfarwyddwr gofal a therapi, y rheolwr atgyfeiriadau, y rheolwr cyfleusterau, dau aelod o'r staff o'r tîm therapi, pedwar aelod o'r staff o'r tîm gofal a dau aelod o'r staff o'r tîm addysg.
- Gwnaethom ddsbarthu 14 o holiaduron i'r bobl ifanc sy'n byw yn y cartref, y staff, teulu/cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref. Ni chafodd yr un ei ddychwelyd cyn i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau.
- Gwnaethom edrych ar bob ardal o'r cartref a gwelsom bedair ystafell wely, lolfeydd, y gegin a'r ardal fwyta/gweithgareddau, ystafelloedd ymolchi a thoiledau. Gwnaethom hefyd edrych ar yr ardal awyr agored.
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar gofnodion gofal tri pherson ifanc, 11 o gofnodion meddyginiaeth, ffeiliau tri aelod o'r staff, y datganiad o ddiben, dogfennau sicrhau ansawdd, cofnodion hyfforddiant, goruchwyllo ac arfarnu'r staff, y polisiau cwyno, chwythu'r chwiban a diogelu, ynghyd â detholiad o gofnodion iechyd a diogelwch yn ymwneud â diogelwch tân ac eitemau trydanol.
- Trafodwyd yr argymhellion gyda'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn ystod yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal
Darparwr y Gwasanaeth	Amberleigh Care Limited
Unigolyn Cyfrifol	Kevin Gallagher
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	12
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	20 Tachwedd 2018
Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu hwn	19 Tachwedd 2019 a 20 Tachwedd 2019
Iaith weithredol y gwasanaeth	Saesneg
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth nac yn bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried 'Mwy na Geiriau: canllawiau strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes gofal cymdeithasol' Llywodraeth Cymru.
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Dyddiad Cyhoeddi 18/02/2020